

Coronafeirws (COVID-19) a sefydlu statudol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru



Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 263/2020

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2020

Yn disodli'r canllaw dros dro a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020

Coronafeirws (COVID-19) a sefydlu statudol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru

Cynulleidfa

Athrawon newydd gymhwyso (ANG); mentoriaid sefydlu; gwirwyr allanol; penaethiaid; cyrff priodol; awdurdodau lleol (ALI); consortia rhanbarthol; undebau'r gweithlu addysg; Estyn; Cyngor y Gweithlu Addysg; cadeiryddion llywodraethwyr; ysgolion annibynnol; sefydliadau addysg bellach; asiantaethau athrawon cyflenwi; athrawon dan hyfforddiant a sefydliadau addysg gychwynnol i athrawon.

Trosolwg

Newidiadau i sefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yn ystod pandemig COVID-19.

Camau i'w cymryd

Unigolion/cyrff sy'n rhan o sefydlu statudol yng Nghymru i roi sylw dyledus i'r gweithdrefnau a'r cyngor yn y cylchlythyr cyfarwyddyd hwn, a'u gweithredu.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Y Gangen Addysgeg, Safonau Proffesiynol a Safon Uwch
Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: inductioninfo@llyw.cymru

 [@LIC_Addysg](https://twitter.com/LIC_Addysg)

 [Facebook/AddysgCymru](https://www.facebook.com/AddysgCymru)

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.hwb.llyw.cymru

Dogfennau cysylltiedig

Rheoliadau Addysg (Trefniadau sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020; Rheoliadau Addysg (Trefniadau sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2015; Canllawiau Ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru 2017; *Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru)* 2019; *Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth* (2017); Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (fel y'i diwygiwyd) 2006.

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Pam bod angen y newidiadau?	2
Pa newidiadau ydyn ni'n eu gwneud?	2
1. Hyd y cyfnod sefydlu	3
2. Dysgu proffesiynol	4
Elfennau o sefydlu sydd heb newid	5
Cyngor pellach a manylion cyswllt	6
Manylion cyswllt consortia	6

Cyflwyniad

Rydym yn cydnabod y bydd athrawon newydd gymhwyso (ANG) yng Nghymru yn pryderu, wrth reswm, am effaith bosibl Coronafeirws (COVID-19) ar eu cyfnod sefydlu statudol. Lluniwyd y canllawiau hyn i ategu'r Rheoliadau newydd sydd mewn grym i sicrhau nad yw ANG o dan anfantais yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r canllawiau hyn yn disodli'r canllawiau dros dro a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020 ac maent yn atodiad i ganllawiau [Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso \(diweddarwyd yn 2017\)](#).

Yn gryno, mae'r gofynion diwygiedig yn galluogi ANG i ganolbwyntio ar ddangos eu bod yn bodloni'r safonau proffesiynol ac ar ddatblygu proffil sefydlu cynhwysfawr. Bydd ANG sy'n bodloni'r safonau proffesiynol yn cyflawni eu cyfnod sefydlu yn llwyddiannus ar yr amod eu bod wedi cwblhau 110 sesiwn (un tymor ysgol) o addysgu.

Pam bod angen y newidiadau?

Ers 23 Mawrth 2020, mae newidiadau i sut mae ysgolion yn gweithredu oherwydd y pandemig COVID-19 wedi golygu bod holl staff ysgolion, gan gynnwys ANG, wedi gorfod addasu a gweithio mewn ffyrdd arloesol i ddarparu addysg i'n dysgwyr.

Mae [Rheoliadau Addysg \(Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol\) \(Cymru\) 2015 \("Rheoliadau 2015"\)](#) yn mynnu bod ANG yn ymgymryd â chyfnod sefydlu o dri thymor ysgol neu gyfnod cyfatebol. Rhaid i ANG nad ydynt yn gyflogedig ar sail amser llawn gwblhau 380 o sesiynau ysgol.

Wrth i ysgolion newid eu ffyrdd o weithio yn ystod cyfnod pandemig COVID-19 mae dal modd i rai ANG ddangos eu bod yn bodloni'r holl safonau proffesiynol ond, o dan Rheoliadau 2015, ni fyddent yn gallu cwblhau'r cyfnod sefydlu ym mlwyddyn academaidd 2019/20. Byddai gofyn iddynt barhau â'u cyfnod sefydlu ym mis Medi 2020 oherwydd na fyddent wedi bodloni'r gofyniad statudol i gwblhau 380 o sesiynau.

Mae disgwyl i bob ANG ymgymryd â dysgu proffesiynol yn ystod eu cyfnod sefydlu. Roedd y canllawiau dros dro yn cydnabod hyn gan annog ANG i barhau i adolygu eu hymarfer a'u cynnydd yn erbyn y safonau proffesiynol ac i ymgymryd â gweithgareddau dysgu proffesiynol drwy Hwb neu blatfformau eraill er mwyn rhoi sylw i unrhyw fylchau posib mewn cysylltiad â'r safonau proffesiynol. Yn Rheoliadau 2015, nid yw cyfnodau arunig o ddysgu proffesiynol yn cyfrannu at y cyfnod sefydlu, felly rydym yn gwneud newid Rheoliadol er mwyn caniatáu hynny.

Pa newidiadau ydyn ni'n eu gwneud?

Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 ("Rheoliadau 2020") yn darparu dau newid (a amlinellir isod) a fydd yn dod i rym ar 15 Gorffennaf 2020. Bydd Rheoliadau 2020 yn cael eu hadolygu bob tymor i sicrhau eu bod yn addas at y diben. Byddant yn dod i ben ar 31 Awst 2021.

Mae'r newidiadau rheoliadol yn dilyn yr un llwybr a nodwyd yn y canllawiau dros dro. Mae'r newidiadau'n ymestyn ac yn ffurfioli'r canllawiau ac yn sicrhau nad yw ANG ar gyfnod sefydlu o dan anfantais oherwydd y ffyrdd newydd o weithio mewn ysgolion o ganlyniad i COVID-19.

1. Hyd y cyfnod sefydlu

Rheoliadau 2015

Rhaid i ANG ymgymryd â chyfnod sefydlu statudol o dri thymor ysgol neu 380 sesiwn. Nid oes hyblygrwydd yn hyn o beth.

Rheoliadau 2020

Mae gan y Corff Priodol ddisgresiwn i ganiatáu ANG i gwblhau ei gyfnod sefydlu ar ôl o leiaf 110 sesiwn ysgol, **ar yr amod bod yr ANG yn bodloni'r safonau proffesiynol** ac yn cydsynio â'r gostyngiad.

Beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol?

Mae mwyafrif helaeth yr ANG yn cymryd tri thymor ysgol neu 380 o sesiynau i arddangos, drwy eu proffil sefydlu, eu bod yn bodloni'r safonau proffesiynol ac yn cwblhau eu cyfnod sefydlu'n llwyddiannus. Drwy gyflwyno isafswm cyfnod o 110 sesiwn (sydd yn cyfateb i un tymor ysgol), rydym yn darparu hyblygrwydd i fynd i'r afael â'r broblem lle mae ANG yn bodloni'r safonau ond nad yw'n gallu cwblhau ei gyfnod sefydlu'n llwyddiannus oherwydd nad yw wedi cwblhau 380 o sesiynau. Mae angen yr hyblygrwydd hwn nawr lle mae COVID-19 wedi amharu ar allu ANG (yn enwedig y rheiny ar gontractau tymor byr) i gwblhau'r cyfnod dan sylw o dri thymor / 380 o sesiynau.

Bydd ANG sy'n bodloni'r safonau proffesiynol, ond sydd heb gronni'r tri thymor / 380 sesiwn oherwydd y ffyrdd newydd o weithio mewn ysgolion ers 23 Mawrth 2020, yn gallu cwblhau ei gyfnod sefydlu'n llwyddiannus. Ar gyfer ANG sy'n ymgymryd â'r cyfnod sefydlu ar ôl y newidiadau a wneir gan Rheoliadau 2020, bydd y newid yn golygu os byddant yn bodloni'r safonau proffesiynol, yna ni fydd gofyn iddynt barhau â'u cyfnod sefydlu ym mis Medi dim ond er mwyn cyflawni'r gofyniad o dri thymor / 380 sesiwn.

Yn y canllawiau dros dro, roedden yn cynghori ANG i gofnodi absenoldebau o hyd at uchafswm o 30 diwrnod neu 60 sesiwn er mwyn cyrraedd y gofyniad tri thymor / 380 sesiwn. Ni fydd angen i ANG gofnodi absenoldebau at ddibenion bodloni'r gofyniad tri thymor / 380 sesiwn (dylid cofnodi pob absenoldeb arall yn unol â chanllawiau 2017) oherwydd bod Rheoliadau 2020 yn lleihau nifer y sesiynau y mae gofyn i ANG eu cwblhau fel isafswm.

Yn ymarferol, bydd cyrff priodol yn defnyddio dau gam i benderfynu a yw ANG yn pasio'r cyfnod sefydlu:

- Yn gyntaf, bydd y corff priodol yn asesu'r proffil sefydlu, i benderfynu a yw'n dangos bod yr ANG yn bodloni'r safonau.
- Os gall yr ANG ddangos ei fod yn bodloni'r safonau proffesiynol, yr ail gam i'r corff priodol fydd gwneud yn siŵr fod yr ANG wedi cwblhau **o leiaf** 110 sesiwn o addysgu.

Os bydd ANG yn bodloni'r gofynion yn y ddau gam, yna bydd yn pasio'r cyfnod sefydlu.

Mae gan yr ANG hyd at dri thymor / 380 sesiwn i arddangos ei fod yn bodloni'r safonau proffesiynol. Os yw ANG yn teimlo ei fod yn barod i gyflwyno'r proffil sefydlu i'w asesu cyn cwblhau tri thymor / 380 sesiwn, dylai'r ANG drafod hynny â'i fentor sefydlu a/neu wiriwr allanol. Yna gall y mentor sefydlu neu'r gwiriwr allanol gyflwyno argymhelliad i'r corff priodol i'w asesu.

Os yw'r corff priodol yn penderfynu nad yw'r ANG yn bodloni'r safonau proffesiynol, yna bydd cyfnod sefydlu'r ANG yn parhau.

Ni roddir estyniad oni bai bod yr ANG yn gofyn am ragor o amser, y tu hwnt i'r tri thymor / 380 sesiwn (yn unol â Rheoliadau 2015 a chanllawiau 2017).

Ar gyfer ANG sy'n dechrau'r cyfnod sefydlu yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21, ac unrhyw ANG sy'n parhau â'u cyfnod sefydlu yn ystod 2020/21, bydd hyd y cyfnod sefydlu yn aros ar isafswm o 110 sesiwn. Fodd bynnag mae Rheoliadau 2020 i fod i ddod i ben ar 31 Awst 2021, felly bydd unrhyw ANG sy'n parhau â'u cyfnod sefydlu ar ôl y dyddiad hwnnw'n ddarostyngedig i Rheoliadau 2015, a bydd gofyn iddynt gwblhau tri thymor / 380 sesiwn o addysgu.

Bydd unrhyw ANG sydd yn gweithio yn rhan amser neu ar sail cyflenwi byrdymor, ac sydd wedi gweithio neu sy'n parhau i weithio mewn ysgolion hyb gyda phlant gweithwyr allweddol, yn gallu cofnodi'r sesiynau hynny yn eu proffil sefydlu a byddant yn cael eu cynnwys fel rhan o'u cyfnod sefydlu.

Yn unol â Rheoliadau 2015 a chanllawiau 2017, bydd angen i ANG sy'n ymgymryd â'r cyfnod sefydlu'n rhan amser neu ar sail cyflenwi byrdymor barhau i gofnodi pob sesiwn gyda Chyngor y Gweithlu Addysg drwy gyflwyno'r ffurflen berthnasol. Rhaid i ANG sy'n ymgymryd â'r cyfnod sefydlu ar sail cyflenwi byrdymor sicrhau bod eu hasiantaeth cyflenwi yn dilysu unrhyw sesiynau a gwblhawyd os nad yw'r ysgol yn gallu gwneud hynny.

2. Dysgu proffesiynol

Rheoliadau 2015

Ar hyn o bryd, nid yw'r amser a dreulir gan ANG ar sesiynau arunig o ddysgu proffesiynol yn cyfrif tuag at y cyfnod sefydlu.

2020 Rheoliadau

Gall yr amser mae ANG yn ei dreulio ar ddysgu proffesiynol arunig gyfrannu tuag at eu cyfnod sefydlu. Mae modd i ddysgu proffesiynol gyfrif am hyd at 16% o amser eu cyfnod sefydlu.

Rhaid:

- cyflawni'r dysgu proffesiynol rhwng 26 Mawrth 2020 a 31 Awst 2021
- i'r dysgu proffesiynol fod yn o leiaf 3 awr o hyd (yn olynol neu fel arall) i gyfrif fel un sesiwn, a
- rhaid i'r corff priodol gymeradwyo'r dysgu proffesiynol.

Beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol?

Mae'r newid hwn yn adlewyrchu pa mor bwysig yw datblygu proffesiynol gydol gyrfa. Mae hynny'n bwysicach nag erioed yn y cyfnod hwn wrth i COVID-19 effeithio ar gyfleoedd ANG i gyflawni eu cyfnod sefydlu ac wrth i athrawon orfod gloywi eu sgiliau i ddysgu o bell neu ddefnyddio dulliau dysgu cyfunol. Mae'r newid yn galluogi ANG i gynnwys sesiynau dysgu proffesiynol i gyfrif am hyd at 16% o gyfanswm nifer y sesiynau y mae'n rhaid iddynt eu cyflawni er mwyn cwblhau eu cyfnod sefydlu.

Mae'n bwysig bod ANG a'r rheini sy'n eu cefnogi'n sicrhau cydbwysedd rhwng y dysgu proffesiynol a'r ymarfer dysgu. Efallai na fydd ANG sydd wedi ymgymryd â llawer iawn o

ddysgu proffesiynol o'i gymharu ag ymarfer dysgu wedi cael digon o brofiad ymarferol i fedru bodloni'r safonau proffesiynol a chwblhau'r cyfnod sefydlu.

Er enghraifft:

- os yw ANG wedi cymryd tri thymor / 380 sesiwn i gwblhau ei broffil sefydlu ac i arddangos ei fod yn bodloni'r safonau proffesiynol, yna byddai hyd at 60 sesiwn dysgu proffesiynol, a gymeradwywyd gan y corff priodol, yn gallu cyfrif tuag at y cyfanswm o 380 sesiwn
- os yw ANG wedi cymryd 220 sesiwn i gwblhau ei broffil sefydlu ac i arddangos ei fod yn bodloni'r safonau proffesiynol, yna gallai hyd at 35 o'r 220 sesiwn fod yn sesiynau dysgu proffesiynol.

Ni chaiff dysgu proffesiynol gyfrif am fwy na 16% o gyfanswm y cyfnod sefydlu. Gall ANG wneud llai na hynny a bydd modd iddynt gwblhau'r cyfnod sefydlu'n llwyddiannus ar yr amod eu bod yn bodloni'r safonau proffesiynol. Hefyd, gall ANG ddewis gwneud mwy na 16% o ddysgu proffesiynol fel rhan o'u cyfnod sefydlu, ond ni chaiff unrhyw sesiynau y tu hwnt i'r 16% eu cyfrif tuag at y cyfnod sefydlu. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod gan bob ANG gydbwysedd rhwng dysgu proffesiynol ac ymarfer dysgu yn ystod eu cyfnod sefydlu.

Yn y pendraw, rhaid i'r corff priodol gymeradwyo sesiynau dysgu proffesiynol yr ANG. Gall cyrff priodol ofyn i fentoriaid sefydlu neu wirwyr allanol ddilysu'r sesiynau dysgu proffesiynol ar eu rhan ac argymhell a ddylid eu cymeradwyo ai peidio.

Mae ffurflen dysgu proffesiynol ar gael drwy'r Pasbort Dysgu Proffesiynol fel y gall ANG gofnodi unrhyw ddysgu proffesiynol a wneir rhwng 26 Mawrth 2020 a 31 Awst 2021. Gofynnir i ANG gofnodi unrhyw weithgareddau fesul awr - bydd 3 x 1 awr yn cyfrif fel un sesiwn. Dylid llwytho ffurflenni wedi'u llenwi i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol ar ôl cwblhau pum sesiwn, ac wedyn fesul pum sesiwn ddilynol, er mwyn galluogi gwirwyr allanol neu fentoriaid sefydlu i gymeradwyo'r dysgu proffesiynol ac i gofnodi hynny ar y proffil.

Ar gyfer ANG sy'n dechrau ar eu cyfnod sefydlu yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21, ac unrhyw ANG sy'n parhau â'u cyfnod sefydlu yn ystod 2020/21, bydd cyfnodau o ddysgu proffesiynol yn parhau i gyfrif tuag at eu cyfnod sefydlu, hyd yn oed ar ôl i Reoliadau 2020 ddod i ben.

Elfennau o sefydlu sydd heb newid

Nid yw'r gofynion canlynol o dan Reoliadau 2015 wedi newid. Dylai ANG a'r holl randdeiliaid sy'n cyfrannu at ddarparu'r cyfnod sefydlu gyfeirio at ganllawiau [Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso yng Nghymru \(diwygiwyd 2017\)](#) a [Rheoliadau Addysg \(Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol\) \(Cymru\) 2015](#).

- Gofyniad i ymgymryd â chyfnod sefydlu.
- Sefydliadau y ceir ymgymryd â chyfnod sefydlu ynddynt.
- Cyfnodau o gyflogaeth sy'n cyfrif tuag at gyfnod sefydlu.
- Estyn cyfnod sefydlu cyn ei gwblhau.
- Ymgymryd â rhagor nag un cyfnod sefydlu.
- Goruchwyllo a hyfforddi yn ystod y cyfnod sefydlu.
- Cwblhau cyfnod sefydlu.
- Estyn cyfnod sefydlu yn unol â phenderfyniad gan y corff priodol neu Gyngor y Gweithlu Addysg.

- Terfynu cyflogaeth yn dilyn methiant i gwblhau cyfnod sefydlu yn foddhaol.
- Apelau.

Cyngor pellach a manylion cyswllt

Os oes gan ysgolion unrhyw ymholiadau ynghylch cyllid sefydlu, e-bostiwch Gyngor y Gweithlu Addysg drwy professionaldevelopment@ewc.wales

Manylion cyswllt consortia

Consortiwm Canolbarth y De	Mandy Esseen: mandy.esseen@cscjes.org.uk Heather Jones: Heather.Jones@cscjes.org.uk
Consortiwm y De Ddwyrain	Deb Woodward: deb.woodward@sewaleseas.org.uk Hannah Barry: Hannah.Barry@sewaleseas.org.uk
ERW	Sarah Perdue: sarah.perdue@erw.cymru
GwE	Ieuan Jones: ieuanjones@gwegogledd.cymru

Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt awdurdodau lleol o fewn GwE ac ERW yn <https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/cyfnod-ymsefydlu/#manylion-cyswllt>.

Mae rhagor o wybodaeth am rôl ysgolion yn ystod y pandemig COVID-19 ar gael yn <https://llyw.cymru/sut-y-bydd-ysgolion-yn-gweithio-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws>.